
# e:newsletter


North East Wales Biodiversity Network



## e:gylchlythyr

Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru

## O, dyna ddiddorol, beth yw e?




**Ydych chi wedi bod allan am dro'n ddiweddar ac wedi gweld rhywbeth anghyffredin ond ddim yn hollol sicr beth oedd?** Mae gwefan newydd wych a allai eich helpu i'w adnabod sef iSpot (www.iSpot.org.uk). Yn syml, mae angen i chi lanlwytho eich llun o'r aderyn, creadur neu blanhigyn nad ydych yn ei adnabod ac yn fuan iawn bydd rhywun yn eich helpu i'w adnabod. Rheolir y wefan gan y Brifysgol Agored ac Opal. Maent hefyd wedi datblygu allweddau i'ch helpu i weithio allan beth ydyw, a hyd yn oed allweddau y gallwch eu lawrlwytho i'ch ffôn fel y gallwch adnabod pethau allan yn y maes.

Ar ôl i chi nodi'r rhywogaeth, peidiwch ag anghofio ei hychwanegu at bas data Cofnod fel y gall ychwanegu at ein gwybodaeth am fywyd gwyllt Gogledd Cymru (www.cofnod.org.uk). Sbotio hapus!

**Yn ogystal ag ispot mae rhai cymwysiadau *smart phone* ar gael i'n helpu i adnabod rhywogaethau rydym wedi eu gweld.** Rydym wedi rhestru rhai rydym yn eu hadnabod isod, rhowch wybod i ni os ydych chi wedi dod o hyd i un gwirioneddol dda!

**1. *Opal bugs count pocket id guide*** o'r amgueddfa astudiaethau natur. Dewch i adnabod rhai o chwilod Prydain a helpu gwyddonwyr ddarganfod mwy am ein hamgylchedd gyda'r cymhwysiad hwn. O larfa pryfed bach i garw'r gwellt a'i goesau main, mae cymhwysiad OPAL Bugs Count yn cynnig cyfle i chi ddod i adnabod chwilod cyffredin Prydain ac anfon eich cofnodion yn syth at y wefan. Mae ar gael yn awr i'w lawrlwytho am ddim.

**2. Cyngor Astudiaethau'r Maes:** cewch un am ddim ac wedyn bydd cymwysiadau ychwanegol ar gael am £1.49 yr un. Dewiswch o'r fuwch goch gota, gwenyn, pysgod d□r croyw, planhigion meysydd chwarae ac infertebratau d□r croyw.

**3. Herptileid** – Ymlusgiaid ac amffibiaid Ynysoedd Prydain (gan isoperia) £2.49 yn cynnwys allwedd adnabod, map dosbarthiad canfyddiadau ac yn cynnwys rhywogaethau a gyflwynwyd.

**4. Treeid** – Canllaw adnabod coed Prydain (gan isoperia) £2.49

Am fwy o gymwysiadau'r byd naturiol ewch i http://www.countryfile.com/countryside/countryside-smartphone-apps a http://visitwoods.org.uk/en/visit-woods/plan-your-visit/Pages/nature-wildlife-wood-apps.aspx

## Helpwch ni i wneud Gogledd-ddwyrain Cymru yn hwylus i ddraenogod!




**Roedd y draenog yn arfer bod yn ymwelydd rheolaidd yn ein gerddi ond dros yr ugain mlynedd diwethaf mae nifer draenogod wedi syrthio hyd at 50% mewn rhannau o'r DU ac mae'n edrych yn debygol ei fod yn parhau felly yng Nghymru a Lloegr.**

Yr hydref hwn rydym yn anelu at godi ymwybyddiaeth am y cwymp yn nifer y draenogod drwy gysylltu â phrosiect Stryd Draenogod / Hedgehog street Ymddiriedolaeth Pobl ar gyfer Rhywogaethau Mewn Perygl sy'n rhoi cyfle i bobl helpu draenogod yn ein cymunedau lleol! Yn hanesyddol, cynefin y draenog oedd ochrau coetiroedd, a thros y blynyddoedd mae wedi addasu i fyw'n hapus mewn llwyni a gerddi. Cafodd ei enw Saesneg ar ôl y cynefin mae'n byw ynddo a'r sŵn mae'r mamal bach pigog yn ei wneud wrth iddo chwilio am fwyd a chymar. Dim ond un o dri mamal sy'n gaeafgysgu mewn gwirionedd yn y DU ydyw, ynghyd ag ystlumod a phathewod sy'n treulio 6 mis y flwyddyn yn gaeafgysgu pan fydd yn gostwng curiad ei galon, tymheredd ei gorff a nifer anadlau'r funud. Mae'n greadur sydd fel rheol yn dod allan yn y nos ac ar ei ben ei hun, a bydd yn teithio tuag un filltir mewn noson yn bwydo ar abwyd, chwilod, corynod a malwod. Nid ydym yn deall yn iawn y rhesymau pam mae niferoedd draenogod wedi gostwng mor ddramatig, gan fod llawer o ffactorau gwahanol yn effeithio ar ddraenogod y wlad a'r dref ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y ddwy boblogaeth yn gostwng. Mae rhai o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddraenogod yn cynnwys; colli cynefin; colli cloddiau, llai o ymylon caeau garw, cynefin â chyswllt gwael, taclusrwydd cynyddol yn ein gerddi a ffiniau anhreiddiadwy i'n gerddi.

**Awgrymiadau ar gyfer helpu'r draenog:** Ceisiwch osgoi defnyddio pelenni lladd malwod, chwiliwch drwy bentyrrau o bren neu falurion gardd cyn eu llosgi, rhowch lwybrau yn eu lle i ddianc o lynau; gadewch le ar gyfer pentyrrau o foncyffion neu ardal lai taclus yn eich gardd, edrychwch yn y glaswellt hir neu'r tyfiant cyn torri'r borfa, crëwch fan mynediad 15cm sgwâr at eich gardd o dan ffens neu glwyd.

**Beth ydym ni'n ei wneud yn Sir y Fflint?** Anerchiadau mewn ysgolion/grwpiau cymunedol: Os hoffech i swyddog bioamrywiaeth alw yn eich ysgol chi neu eich grŵp cymunedol a siarad am ddraenogod cysylltwch â hi ar sarah.slater@flintshire.gov.uk . Gellir cysylltu anerchiadau ysgol â phynciau'r cwricwlwm.

**Mwy o wybodaeth**: Os ydych am ddarganfod mwy am ddraenogod o fwydo, gwella eich gardd, beth i'w osgoi, mae gennym wybodaeth gallwn ei danfon atoch yn electronig neu drwy'r post. Cysylltwch â ni ar y cyswllt isod. Mae gennym hefyd gyfleuster i gofnodi draenog ar <http://www.cofnod.org.uk/>. Ewch i'r gwefan a chofrestrwch, mae'n gyflym ac yn hawdd, ar ôl i chi gofrestru, cliciwch ar gofnodi rhywogaeth a gwelwch fotwm cofnodi draenog, cliciwch ar hwn a llenwch y ffurflen syml. Os ydych am ganfod mwy am fod yn bencampwr draenogod a helpu eich stryd/cymuned i fod yn lle mwy hwylus i ddraenogod ewch i www.hedgehogstreet.org

# e:newsletter

North East Wales Biodiversity Network

## Helpwch eich bywyd gwyllt lleol i oroesi'r gaeaf

Wrth i'r dyddiau fyrhau a'r tymheredd syrthio dros fisoedd y gaeaf mae'n dod yn anoddach i lawer o'n bywyd gwyllt oroesi. Mae bwyd yn brinnach ac mae'r tymheredd isel yn golygu ei bod yn cymryd mwy o egni i gadw'n gynnes. Mae rhai rhywogaethau'n treulio'r gaeaf yn gaeafgysgu er mwyn arbed egni, ond mae eraill yn parhau'n fywiog gydol y tywydd oer.



*Llyffant cyffredin (Dave Williams Ffotograffiaeth)*

Mae llawer o bethau y gallwch chi eu gwneud er mwyn cynnig help llaw i fywyd gwyllt eich ardal leol. Peidiwch â bod yn rhy daclus! Arhoswch hyd y gaeaf hwyr cyn twtio'r cloddiau fel y gall yr adar gael y ceirios a'r egroes, a gadewch y pen had ar blanhigion. Gall tacluso eich gardd yn y gaeaf hefyd darfu ar greaduriaid sy'n golygu bod rhaid iddynt ddefnyddio egni ychwanegol i ddod o hyd i loches yn rhywle arall. Gall pentwr o foncyffion neu gerrig gynnig lle i greaduriaid fel brogaod neu fadfall i aeafgysgu.

**Gaeaf 2011**

**Rhifyn 002**

Gallwch roi bwyd a dŵr allan ar gyfer adar. Mae bwyd brasterog egni uchel yn bwysig iawn yn ystod tywydd oer, ond os ydych yn dechrau rhoi bwyd allan ar gyfer yr adar daliwch ati hyd y gwanwyn gan y bydd yr adar yn dod i ddibynnu arno. Arbedwch dŵr rhag rhewi drwy roi pêl ping-pong ar yr wyneb.

Rhowch gynnig ar rai o'r syniadau hyn a rhowch help llaw i'ch bywyd gwyllt lleol dros y gaeaf.

### Cofrestrwch i dderbyn rhifynnau nesaf yr E-Newyddion:

- Os hoffech danysgrifio neu ganslo'ch tanysgrifiad i'r cylchlythyr, cysylltwch â ni.
- Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw un o'r prosiectau hyn, cysylltwch ag awdur yr erthygl.
- Os gwyddoch am rywbeth sy'n haeddu sylw yn ein E-Newyddion, cofiwch roi gwybod i ni.

### Cysylltwch â ni:

**Wrecsam: emma.broad@wrexham.gov.uk**
Ffôn: 01978 292514

**Sir y Fflint: sarah.brown@flintshire.gov.uk**
Ffôn: 01352 703263

**Sir Ddinbych: elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk**
Ffôn: 01824 708263

**Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk**
Ffôn: 01492 575123